# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU AMGYLCHEDD, ADFYWIO A CYMDOGAETH

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD – MICROSOFT TEAMS AC YSTAFELL GYNADLEDDA'R CABINET)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 19 Ebrill 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Pursey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | C.James, L.Williams, W.Carpenter, A.Dacey, N.Goldup-John, R.W.Wood a/ac J.Jones |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Griffiths, C.Plowman, M.Roberts, J.Stevens, T.Rees, S.Brennan, S.Griffiths, Harvey, C.Howard, A.James, A.Phillips, G.Slyman, B.Suddell a/ac R.Turner |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr J.Hurley a/ac S.Jones |
| **Arsylwyr:** | Cynghorydd Peter D.Richards |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Nododd y Cadeirydd fod aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi cytuno i graffu ar yr eitemau canlynol o agendâu Craffu a Bwrdd y Cabinet:

Agenda Craffu

• Eitem 4: Yr wybodaeth ddiweddaraf am roi mesurau yng Nghynllun Gweithredu'r Strategaeth Wastraff ar waith

Agenda Bwrdd y Cabinet

• Eitem 6: Prosiect Angori i Fusnesau a ariennir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG) - Gwella Cymorth Busnes ar gyfer Twf ac Arloesedd - Diweddariad
• Eitem 8: Cynllun Ynni Ardal Leol Castell-nedd Port Talbot

- Eitem 14: Bwriad i waredu Tir Datblygu Preswyl ym Mlaenbaglan.
- Eitem 15: Bwriad i adnewyddu prydles y Llyfrgell Gyhoeddus ar lawr cyntaf Canolfan Siopa Aberafan, Port Talbot i'r Cyngor.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Datganodd y Cynghorydd Nathan Goldup-John fuddiant nad oedd yn rhagfarnol yn Eitem 8 Cynllun Ynni Ardal Leol Castell-nedd Port Talbot gan ei fod yn gweithio i Trafnidiaeth Cymru.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cafodd yr eitem hon ei hepgor oherwydd camgymeriad clerigol.

4. **DIWEDDARIAD AR ROI MESURAU CYNLLUN GWEITHREDU'R STRATEGAETH GWASTRAFF AR WAITH (I DDILYN)**

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am lunio'r adroddiad diweddaraf, yr oedd aelodau o'r farn ei fod yn gynhwysfawr ac yn ategu'r adroddiad.

Nododd yr Aelodau ar dudalen 33 o'r adroddiad ei fod yn rhestru'r ddirwy am beidio â chyrraedd y targed gwastraff a osodwyd gan Lywodraeth Cymru fel £200 y dunnell dros y targed. Teimlai'r Aelodau y byddai'n well ei ail-eirio ar sail amcangyfrif o gyfanswm y ganran dros y targed, gan y gallai gael mwy o effaith.

Teimlai'r Aelodau bod cwestiynau 1 a 2 yn yr holiadur yn debyg iawn ac y gellid eu cyfuno er mwyn helpu dealltwriaeth a chynyddu ymgysylltiad.

Nododd swyddogion fod y ffigwr ar gyfer pob 1% wedi'i gyfrifo ac y gallent ystyried hynny; roedd swyddogion hefyd yn derbyn y syniad o uno'r ddau gwestiwn pan fyddant yn cwblhau'r cwestiynau a gyflwynir yn yr ymgynghoriad.

Awgrymodd yr aelodau nad oedd angen y cwestiwn ynghylch amlder y casgliadau, oherwydd bod arweinydd y cyngor yn dweud na fyddai hyn yn newid i dri chasgliad wythnosol.

O ran codi tâl am wastraff gwyrdd, roedd yr aelodau'n poeni y byddai'n creu effaith negyddol ar yr amgylchedd gan y gallai pobl

losgi'r gwastraff eu hunain neu ddechrau ei roi mewn biniau gyda gwastraff arferol neu hyd yn oed gael gwared arno eu hunain.

Holodd yr aelodau hefyd faint o gynghorau sydd wedi talu dirwy i Lywodraeth Cymru hyd yn hyn.

Eglurodd swyddogion na allant wneud sylw ar unrhyw ddatganiadau gwleidyddol a'u bod yn gwbl glir y gwnaed penderfyniad ffurfiol ym mis Ebrill 2023 i gynnal ymgynghoriad a bod y rhan hon o'r cynllun gweithredu'n cynnwys cyflawni'r penderfyniad hwnnw a wnaed ym mis Ebrill 2023.

Mewn perthynas â gwastraff gwyrdd, dywedodd swyddogion y bydden nhw'n archwilio yn yr ymgynghoriad beth fyddai'n digwydd i wastraff gwyrdd yn ogystal â gwastraff plastig. Dywedodd swyddogion fod y cerbydau ailgylchu a sbwriel ar fin cael eu hadnewyddu a dyma'r amser priodol i ystyried y mathau o gerbydau y mae angen iddynt eu prynu fel bod ganddynt y rhai cywir am y 7-9 mlynedd nesaf.
Cafodd yr aelodau wybod bod rhai cynghorau wedi cael dirwyon gan Lywodraeth Cymru, ond doedd gan swyddogion ddim y manylion ynghylch a wnaethant eu talu.

Dywedodd yr aelodau nad ydynt yn credu bod unrhyw ffordd o fonitro faint o wastraff gardd y gallai'r cyhoedd ei losgi neu ei roi yn y biniau gwastraff arferol. Dywedodd swyddogion wrth aelodau fod aelodau'r cabinet yn bresennol ac roeddent yn sicr y byddai'r adborth gan aelodau Craffu yn cael ei ystyried ynghyd â phopeth a ddaw yn sgil yr ymgynghoriad cyhoeddus.
Gofynnwyd i swyddogion am y gwastraff cynnyrch hylendid amsugnol gan mai'r adborth gan y cyhoedd i'r aelodau oedd bod y blychau'n rhy fach a gofynnwyd a fyddai addasrwydd y blychau'n cael ei adolygu.

Cadarnhaodd swyddogion y gellir adolygu'r maint ac, yn anffodus, nad oedd yr adborth a roddwyd i breswylwyr ynghylch beth oedd diben y biniau cystal ag y dylai fod wedi bod. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau nad biniau storio yw'r biniau hyn, ond yn hytrach eu bod yn finiau â mynediad hawdd tra bod y sach ar agor i roi cewynnau ynddynt nes bod y sach ar gau. Bydd swyddogion yn diweddaru'r wefan fel y gellir cyfeirio'r cyhoedd ati.

Gofynnodd aelodau a oes unrhyw gynlluniau ar gyfer biniau storio yn ogystal â biniau â sachau agored.

Mewn ymateb i'r adborth a gawsant yn gynharach yn y cynllun peilot cychwynnol, nododd swyddogion fod y cyhoedd am gael bin lle nad oedd angen iddynt agor a chau sachau sawl gwaith y dydd i roi'r cewynnau i mewn. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau nad yw swyddogion yn bwriadu darparu biniau eraill ar hyn o bryd.

Roedd yr aelodau'n credu yn ystod cyfarfod y 'Grŵp Tasg a Gorffen ar y strategaeth wastraff' nad oedd y blychau yno er mwyn cadw'r bagiau ar agor ond i'w defnyddio fel bin storio. Teimlai'r aelodau y gallai'r cyfathrebu ar hyn fod wedi bod yn broblem i'r cyhoedd ac i'r aelodau.
Dywedodd Aelod y Cabinet dros y Strydlun y byddai'n cymryd yr adborth a'i drafod â swyddogion ac yn ystyried pethau ochr yn ochr â'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Dywedodd swyddogion mai'r pryder o ran casgliadau yw peidio â rhoi gormod o amser ychwanegol yn y broses gasglu ac os oes rhaid i'r cyhoedd gael bin arall sy'n fwy o ran storio, yna bydd mwy o demtasiwn i roi'r bin allan i'w gasglu. Byddai hynny'n ychwanegu llawer o amser pan ystyriwch y byddai angen symud y bin o'r eiddo i'r lori sbwriel ac yn ôl eto.

Derbyniodd swyddogion yr awgrym bod aelodau'n teimlo y byddai'n ddefnyddiol nodi rhywbeth ynghylch argaeledd offer ailgylchu ar y cwestiynau sy'n gofyn pam nad yw pobl yn ailgylchu.

Awgrymodd yr aelodau hefyd y byddai'n ddefnyddiol llunio cwestiwn o ran bagiau a derbyniadau gwastraff bwyd i ddeall a yw hynny'n rhywbeth y dylai'r cyngor ganolbwyntio arno ar ei wella neu a yw'n rhwystr i ailgylchu.

Rhoddodd yr Aelodau adborth ar brofiad eu preswylwyr o archebu bagiau gwastraff bwyd ac, os bydd preswylydd yn ffonio'r llinell gymorth, rhoddir gwybod y gall gymryd 18 niwrnod i'w hanfon, ond os ydynt yn dod at yr aelodau, mae'n ymddangos eu bod yn gallu eu hanfon y diwrnod nesaf neu'r diwrnod canlynol.

Dywedodd swyddogion fod cydweithwyr corfforaethol yn helpu gyda'r holiadur, a byddant yn siarad â nhw ynghylch sut y gallant gynnwys rhywbeth am argaeledd offer a fydd yn profi a oes rhai rhwystrau i bobl sy'n cymryd rhan oherwydd dosbarthu offer.

Esboniodd swyddogion fod yr amserlen 18 niwrnod sy'n cael ei datgan yn golygu uchafswm o 18 niwrnod i anfon y bagiau. Yn

flaenorol, roedd swyddogion yn prynu 400,000 o fagiau bwyd fesul archeb. Mae swyddogion bellach yn archebu 1,000,000 o fagiau ar y tro ac o ran y biniau bwyd, maent wedi cyflogi gyrrwr dosbarthu ychwanegol, ac maent bellach yn dosbarthu 5,000 o eitemau ychwanegol ar ben cyfanswm y llynedd. Roedd swyddogion yn teimlo eu bod wedi dioddef oherwydd eu llwyddiant eu hunain oherwydd bod y cyhoedd yn galw am yr eitemau hyn wrth i ailgylchu gynyddu.

Roedd yr aelodau'n falch o nodi gostyngiad mewn offer sydd wedi'i dorri a nodwyd bod hyn yn debygol oherwydd bod y criwiau'n dechrau cymryd mwy o amser i roi'r blychau yn ôl.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros y Strydlun y byddant yn edrych ar yr adborth pan ddaw'r ymgynghoriad i ben. Eglurodd ei fod wedi ystyried yr hyn y mae aelodau wedi'i ddweud heddiw, yn enwedig o ran storio cewynnau a bagiau bwyd ac y bydd yn ddiddorol gweld beth sydd gan breswylwyr ar draws y sir i'w ddweud yn ystod yr ymgynghoriad.

Nodwyd yr adroddiad.

5. **DIWEDDARIAD AR ROI MESURAU CYNLLUN GWEITHREDU'R STRATEGAETH GWASTRAFF AR WAITH**

Nodwyd yr adroddiad.

6. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Eitem 6: Prosiect Angori i Fusnesau a ariennir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG) - Gwella Cymorth Busnes ar gyfer Twf ac Arloesedd – Diweddariad

Nododd y Cadeirydd fod aelodau'n gwerthfawrogi lefel y manylion a'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad ac er gwaethaf y manylion nid oedd yn rhy hir, ac roedd yr aelodau'n gwerthfawrogi hynny. Gofynnodd yr Aelodau am dudalen 44 yr adroddiad lle mae'n ymwneud â chynaliadwyedd y swyddi. Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad yn mynegi pryder y gallai pobl adael a bydd llawer o brofiad yn cael ei golli pan fydd y cyllid ar gyfer y prosiect yn dod i ben. Roedd yr Aelodau'n meddwl tybed a oedd unrhyw ragolygon ar gyfer cyllid yn y dyfodol neu unrhyw feddyliau am sut i osgoi colli staff.
Esboniodd swyddogion fod staff yn dechrau chwilio am gyflogaeth arall erbyn diwedd y cynllun gan nad oes ganddynt unrhyw sicrwydd o gyflogaeth yn y dyfodol, ac mae'r awdurdod yn colli staff a phrofiad

da iawn. Mae'r Prif Weithredwr wedi pwysleisio'r angen i sicrhau bod swyddogion yn gallu sicrhau bod modd i swyddogion gael pethau ar waith i gadw'r holl staff y mae eu hangen.

Cynghorwyd aelodau weithiau bod angen clustog i gadw'r staff oherwydd byddai angen i broses recriwtio hir arall ddigwydd wedi hynny fel arall.

Collodd yr awdurdod ran gyntaf y cynllun o ran cael yr adnoddau angenrheidiol i ddechrau cyflawni oherwydd eu bod yn dal i fod yn y cyfnod recriwtio oherwydd y bwlch rhwng diwedd un cyllid a dechrau cyllid arall. Mae swyddogion yn obeithiol y byddant yn gwneud rhywbeth i sicrhau y bydd yr holl staff y mae angen iddynt eu cadw'n aros.

Dywedodd swyddogion fod proffil oed y staff yn golygu y bydd cynllunio olyniaeth yn broblem yn ogystal â cholli rhai pobl ifanc a allai o bosib ddechrau gyrfa yn y maes hwn ond bod ansicrwydd ynghylch y cyllid a pha mor hir y byddant yn gallu eu cadw.
Mae swyddogion wedi mynegi eu pryderon i Lywodraeth y DU ynglŷn ag ansicrwydd y broses ymgeisio. Dywedodd swyddogion fod y Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG) wedi bod yn dda iawn i'r awdurdod, ond mae gwir angen cyhoeddi CFfG 2 arnynt rywbryd cyn i CFfG 1 ddod i ben oherwydd byddai'r parhad hwnnw'n rhoi darpariaeth llawer hirach i swyddogion. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y CFfG wedi caniatáu hyblygrwydd gyda'r cyllid i ymateb i bethau sy'n digwydd, er enghraifft, sefyllfa Tata Steel ac wedi caniatáu i swyddogion ddechrau gwneud rhywfaint o waith gyda rhai o'r cwmnïau y maen nhw'n gwybod y byddant yn cael eu heffeithio o fewn y gadwyn gyflenwi.

Dywedodd swyddogion y byddai cael parhad yn bwysig iawn ac maent wedi mynegi hynny i Lywodraeth y DU ac er eu bod yn cydymdeimlo'n fawr, nid oes arwydd clir y byddant yn parhau i'w wneud ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd swyddogion mai dyddiad gorffen presennol y prosiect oedd mis Mawrth, a'r pryder mawr yw eu bod wedi cael llawer o fomentwm gyda'r cynllun grant, ond mae'n ymddangos y bydd yn rhaid iddynt ei gau ym mis Rhagfyr eleni oni bai bod cyhoeddiad am estyniad yn dod. Mae arwyddion gan Lywodraeth y DU mewn trafodaethau anffurfiol yn awgrymu na all y cylch presennol o'r CFfG ymestyn cyfnodau cyflwyno. Nid yw swyddogion yn ymwybodol o'r ail rownd o'r CFfG a dyna'r hyn y maent yn gobeithio ei chael.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau nad oes llawer o arian wedi'i ddyrannu ar draws y DU gyda'r Gronfa Ffyniant Bro (LUF). Mae swyddogion o'r farn bod y Llywodraeth yn fwy sympathetig ynghylch potensial ceisiadau LUF oherwydd eu bod yn seiliedig ar gyfalaf yn hytrach na refeniw fel sydd yn y CFfG a gallant ganiatáu i'r awdurdod ymestyn hynny yn dibynnu ar yr hyn sy'n digwydd yn yr adolygiad gwariant yn yr hydref. Os nad yw hynny'n cael ei ymestyn, yna mae perygl y bydd gan y llywodraeth brosiectau sydd ar eu hanner neu y mae tri chwarter o'r gwaith wedi'i orffen pan fyddant yn dod i ben, a bydd awdurdodau lleol yn methu â thalu am unrhyw wariant ychwanegol arnynt.

Nododd Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thwf Economaidd i aelodau ei fod wedi mynd i CCB y Cynghrair Diwydiannol sy'n lobïo Llywodraeth y DU, a nododd fod arwyddion y gall Llywodraeth y DU barhau â'r CFfG am flwyddyn arall ni waeth pa blaid sy'n ennill yr etholiad cyffredinol yn edrych yn gadarnhaol. Dywedodd Aelod y Cabinet ei fod wedi gweld gwaith y tîm busnes ac wedi mynd i ddigwyddiad gyda'r wybodaeth fel deiliad busnes. Eglurodd ei fod wedi bod yn bresennol mewn rhai o'r cyrsiau ac roedd yn teimlo y byddant yn ardderchog. Dywedodd Aelod y Cabinet fod y bobl newydd sydd wedi bod yn dysgu oddi ar brofiad helaeth y bobl a allai gael eu colli, yn anffodus, yn amhrisiadwy.

Nodwyd yr adroddiad.

<u>Eitem 8: Cynllun Ynni Ardal Leol Castell-nedd Port Talbot</u>
Nododd yr Aelodau nad oedd unrhyw sôn am ynni trydan dŵr o fewn adran yr adroddiad a oedd yn ymwneud â systemau ynni cymunedol, a gofynnon nhw a ystyriwyd hyn a'i wrthod neu a gafodd ei ystyried o gwbl.

Cododd yr Aelodau hefyd bryderon ynghylch y ddibyniaeth ar drawsnewidiadau pwmp gwres ffynhonnell aer yn yr adroddiad. Cododd yr Aelodau'r mater nad yw llawer o gartrefi yng Nghastell-nedd Port Talbot ar y grid nwy o hyd a'u bod yn dibynnu ar olew neu lo. Mae'r mathau hyn o dai'n tueddu i fod yn fwy cymhleth ar gyfer gosod pwmp gwres ffynhonnell aer. Mae hyn oherwydd goblygiadau o ran gwella'r system wresogi, inswleiddio, a diffyg waliau ceudod mewn rhai eiddo. Roedd yr Aelodau'n pryderu bod y materion hyn yn golygu y byddai Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer yn rhy ddrud, ac mae llawer o'r costau hyn yn mynd i fynd i ddeiliaid tai.

Mewn perthynas â phŵer trydan dŵr, dywedodd swyddogion nad oes unrhyw beth o reidrwydd na ellir ei ystyried. Os yw'n gweithio, yna mae unrhyw beth yn werth ei ystyried.

Mewn perthynas â phympiau gwres ffynhonnell aer, esboniodd swyddogion fod pethau'n newid yn gyflym yn enwedig yn y diwydiant ynni ac ynni adnewyddadwy o ran ansawdd y mathau o gynhyrchion sydd bellach yn cael eu cynhyrchu a'u heffeithlonrwydd yn ogystal â'u cost. Mewn llawer o feysydd, mae'r gost yn gostwng wrth iddynt ddod yn fwy cyffredin.

Tynnodd swyddogion sylw at bwysigrwydd sicrhau bod ffocws ar sgiliau a hyfforddiant ac i sicrhau bod pobl gymwys sy'n gwneud gwaith da ar gael i osod y dechnoleg hon oherwydd y ffordd orau i'w hyrwyddo ac annog eraill yw dangos bod pobl wedi cael profiadau da ag ef.

Dywedodd swyddogion fod y fenter Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe yn edrych ar y gwahanol fathau o dai a'r gwahanol fathau o offer sydd ar y farchnad a all helpu i symud tuag at sero net.

Rhoddodd Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thwf Economaidd drosolwg i'r aelodau ar ystod yr hyn y mae'r awdurdod yn ei wneud. O ran micro-gynhyrchu, dywedodd fod dau gynllun ar gyfer trydan dŵr yn mynd trwy broses drwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru ac unwaith y byddant ar waith ac wedi'u cyflawni, byddai'n gosod esiampl i eraill ac efallai, gallwn ei hyrwyddo mwy.

Cafodd yr aelodau wybod bod un tyrbin yn Ystad Ddiwydiannol Cynffig sy'n pweru peth o'r safle diwydiannol yno.
Dywedodd Aelod y Cabinet fod yr awdurdod ar flaen y gad o ran yr hyn y mae'n ei wneud gyda rhai o'r adeiladau, a bydd ganddynt rai enghreifftiau gwych eraill pan fydd Tai Tarian yn sefydlu dau brosiect sy'n cael eu hariannu'n rhannol gan ganolfannau CFfG, felly byddant yn enghreifftiau o ynni adnewyddadwy blaengar ac maent yn debyg i Rhos Afan, sy'n ailddechrau ac sy'n mynd i fod yn ynni-gadarnhaol neu'n garbon niwtral.

Rhoddodd Aelod y Cabinet enghraifft o sgiliau a hyfforddiant yng Ngholeg Castell-nedd gyda'i Academi Werdd sydd bellach yn gweithredu ac sy'n ymateb i ba hyfforddiant y mae ei angen ac y mae ganddo rai cyrsiau ar ddod ar osod ynni solar a gosod pympiau gwres. Eglurodd Aelodau'r Cabinet fod sgiliau a hyfforddiant yn

bwysig iawn. Dywedodd Aelod y Cabinet fod cyllid yn y cynllun Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer ar gyfer hyfforddiant hefyd.

Amlygodd Aelod y Cabinet hefyd fod dogfen flaengar ar gael sy'n golygu os bydd llywodraeth y DU yn penderfynu dilyn y trywydd hydrogen, yna bydd y ddogfen yn cael ei haddasu wrth i bethau newid.

Nododd yr Aelodau fod sgiliau a hyfforddiant yn bwysig ac, mewn perthynas â phympiau gwres, mae gan ardal yr awdurdod lawer o bobl sydd â'r sgiliau i'w gosod ond mae bwlch mewn sgiliau o ran manylebau technegol. Nodwyd ei fod yn broblem ledled y DU. Dywedodd Aelod y Cabinet ei fod wedi bod mewn digwyddiad busnes diweddar lle y gwnaeth gwrdd ag arbenigwr mewn rheoli systemau adeiladu, sydd bellach wedi'i gysylltu â Choleg Castell-nedd. Mae rheoli systemau'n rhan fawr o sut mae ynni adnewyddadwy'n cael ei weithredu a ble maen nhw'n cael eu gweithredu. Dywedodd Aelod y Cabinet fod hyn yn enghraifft o effeithiolrwydd y rhwydwaith a digwyddiadau busnes lle mae arbenigwr bellach wedi'i gysylltu â Choleg Castell-nedd i gynnal cyrsiau fel hynny yno.

Mynegodd yr Aelodau'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru edrych ar sut mae teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy mewn ardaloedd gwledig yn cael ei alluogi a bod teithio llesol yn rhan o gludiant cyhoeddus a thrafnidiaeth gymunedol.

Mynegodd yr aelodau gefnogaeth ar gyfer y syniad o lobïo ar gyllid ardaloedd gwledig ar gyfer teithio llesol ond roedd ganddynt rai pryderon ynghylch ehangu adnoddau, gan geisio ymestyn y Ddeddf Teithio Llesol ar gyfer hamdden ac adloniant oherwydd eu bod yn ddau beth ar wahân. Nid oedd yr aelodau'n siŵr bod yr awdurdod yn mynd i lwyddo â'r pwynt hwnnw oherwydd bod y Ddeddf Teithio Llesol yn ymwneud â theithiau pwrpasol, nid hamdden ac adloniant.

Dywedodd swyddogion eu bod yn rhan o Fwrdd Teithio Llesol Cymru Gyfan a'u bod wedi codi pryderon ynghylch y ddeddfwriaeth bresennol ar deithio llesol ar ran rhanbarth y de-orllewin, gan gynnwys y ddarpariaeth a'r cyllid ar gyfer llwybrau teithio llesol mewn cymunedau gwledig. Mae swyddogion yn teimlo bod y cynllun Teithio Llesol presennol wedi nodi ardaloedd trefol allweddol o fewn yr awdurdod ac mae swyddogion wedi canfod, lle byddai ganddynt awydd i sefydlu yn yr ardaloedd gwledig, nad yw'r rhain yn addas o ran blaenoriaethau a chyllid Llywodraeth Cymru o ran gwerth am arian a chanlyniadau.

Dywedodd swyddogion eu bod yn parhau i lobïo o ran y canllawiau ac efallai y bydd rhai adolygiadau'n cael eu cynnal i geisio cael mecanwaith lle gellir cefnogi teithio llesol mewn cymunedau gwledig. Eglurodd swyddogion fod yr egwyddorion ynghylch gweithgarwch hamdden yn fater y mae swyddogion wedi'i herio yn y gorffennol.

Dywedodd y Cadeirydd wrth swyddogion fod ganddynt gefnogaeth wleidyddol gan aelodau wrth edrych ar aneddiadau diffiniedig fel y'u diffinnir yn y ddeddf a sut y cawsant eu hadnabod.
Nodwyd yr adroddiad.

7. **EITEMAU BRYS**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

8. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o gynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

9. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Eitem 14: Bwriad i waredu Tir Datblygu Preswyl ym Mlaenbaglan.

Yn dilyn craffu, cefnogodd yr Aelodau'r argymhellion diwygiedig i Fwrdd y Cabinet.

Eitem 15: Bwriad i adnewyddu prydles y Llyfrgell Gyhoeddus ar lawr cyntaf Canolfan Siopa Aberafan Port Talbot i'r Cyngor.

Yn dilyn craffu, cefnogodd yr Aelodau'r argymhellion diwygiedig i Fwrdd y Cabinet.

TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**